| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **31 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – ZAM ZAM, 308 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo Zam Zam Foods, 308 Stryd Fawr, Bangor LL57 1UL gan ddeilydd y drwydded, Mr Khaliq Noor.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o awr a hanner yn ychwanegol, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir hefyd am awr ychwanegol i hyn ar noswyl y Nadolig a nos Calan.

| Gweithgaredd trwyddedig | Trwydded gyfredol | Trwydded arfaethedig |
|---|---|---|
| Cyflenwi lluniaeth hwyr y nos | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 03:30 |
| Oriau agor a chau | 09:00 – 05:00 | 09:00 – 05:00 |

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais ac fe gafwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan berchennog busnes cyfagos a Cyngor Dinas Bangor. Cyflwynwyd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn y man cychwyn, ond yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, fe gafwyd cytundeb yn ddarostyngedig i amodau penodol.

### Sylwadau yr Heddlu

Yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, mae'r Heddlu yn datgan fod yr ymgeisydd wedi cytuno i gyfyngu oriau gweithgareddau trwyddedig i 03.00 y bore dydd Sul hyd ddydd Iau , a 03:30 nos Wener a Nos Sadwrn.
Mae cytundeb yr Heddlu i gymeradwyo'r cais hefyd yn ddarostyngedig i gytundeb yr ymgeisydd i dderbyn amodau ychwanegol mewn perthynas â TCC, a chyflogi goruchwylwyr drysau ar gyfer yr awr olaf o weithgaredd trwyddedig ar nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn.

Gweler manylion llawn gohebiaeth yr Heddlu ynghlwm a'r adroddiad hwn.

### Gwrthwynebiad Cyngor Dinas Bangor a pherchennog busnes lleol

Gwrthwynebir ar sail yr amcanion trwyddedu -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.